**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 21 TACHWEDD 2017 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell a Mrs Julie May.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mr Ralph Handscomb (Swyddog Arolygon); Deb Jones (Swyddog Cymorth Busnes) a Mrs Catherine Thomas (Cynorthwyydd Arolygon)

**Amser dechrau:** 09:30
**Amser gorffen:** 14:40

**Ymddiheuriadau:** Mr Theodore Joloza

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiad o Fuddiant.

## 2. Briff gan y Cadeirydd

2.1. Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch i'r Ysgrifenyddiaeth am drefnu'r cyfarfod rhyng-gomisiynol diweddar a gynhaliwyd yng Nghaerdydd. Roedd wedi derbyn nifer o sylwadau gan y rhai a oedd yn bresennol yn dweud bod y digwyddiad yn llwyddiant.

2.2. Briffiodd y Cadeirydd y Comisiwn ar araith Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a wnaed i'r swper rhyng-gomisiynol, ac y caiff gwahoddiad ei estyn iddo fynychu cyfarfod gyda'r Comisiwn i esbonio rôl y Comisiwn ymhellach.

2.3. Nododd y Cadeirydd y gwahoddiad gan Gomisiwn Ffiniau yr Alban ar gyfer cyfarfod rhyng-gomisiynol 2018.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2017

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2017 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 7 Tachwedd 2017 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Nodwyd y cynnydd diweddaraf ar y materion canlynol hefyd:

- **(Mater 1) Staffio** – Penodwyd Rheolwr Cymorth Busnes newydd a bydd yn dechrau'n swyddogol ar 1 Ionawr 2018.
- **(Mater 2) Porth Ymgynghori** – Mae gwaith yn mynd rhagddo a chaiff prawf cyntaf o'r wefan ei gyflwyno i'r Dirprwy Brif Weithredwr maes o law.
- **(Mater 5) Strategaeth TG** – oherwydd i'r Cabinet newydd, bydd y penderfyniad yn disgyn i'r Ysgrifennydd Cabinet newydd erbyn hyn.
- **(Mater 6) Cyfarfod Rhyng-gomisiynol 2017** – roedd nifer fawr o bobl yn bresennol yn y digwyddiad a chafwyd nifer o drafodaethau da.
- **(Mater 7) Adeilad** – Mae rhagor o wybodaeth yn cael ei cheisio gan y landlord a'r syrfewyr ynghylch y brydles newydd.
- **(Mater 8) Arweiniad ar Arolygon Cymunedol** – mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal arno ar hyn o bryd.

## 5. Holiadur Hunanasesu Blynyddol y Bwrdd

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 31 Hydref 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

5.2. **Nododd** y Comisiwn yr holiadur. Bydd aelodau'n llenwi'r holiadur a'i roi i'r Rheolwr Cyllid cyn 8 Rhagfyr 2017.

## 6. Rheoli Risg

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 9 Tachwedd 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

6.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad â'r newidiadau canlynol –

- CR6 – caiff ei ddileu wrth gyhoeddi'r Argymhellion Terfynol ar gyfer yr Arolwg o'r Ffiniau Tua'r Môr rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe.

6.3. **Penderfynodd** y Comisiwn adolygu CR5 yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr i barhau i bwysleisio i Lywodraeth Cymru yr angen i symud ymlaen â'r trefniadau TG.

## 7. Monitro'r Gyllideb

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 9 Tachwedd 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a **chytunodd** â'r trosglwyddiadau arian arfaethedig.

## 8. Arolwg Etholiadol Powys – Adroddiad Cynigion Drafft

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Tachwedd 2017 gan y Swyddog Arolygon.

8.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a **chytunodd** â'r adroddiad yn amodol ar nifer o fân newidiadau arfaethedig i eiriad nifer o adrannau yn yr adroddiad.

## 9. Arolwg Etholiadol Conwy

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Tachwedd 2017 gan y Swyddog Arolygon.

9.2. **Cytunodd** y Comisiwn ag Opsiwn 5 ar gyfer Arfordir Conwy, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Bryn, Colwyn, Conwy, Craig-y-Don, Deganwy, Eirias, Gele, Glyn, Gogarth a Mostyn, Bae Cinmel, Llanddulas a Llysfaen, Llandrillo-yn-Rhos, Cyffordd Llandudno, Mochdre, Pandy, Penmaenmawr, Penrhyn, Pensarn a Phentre Mawr, Rhiw, Towyn, a Thudno,

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cadw mwyafrif y trefniadau etholiadol presennol.
- Mae'n darparu gwelliant sylweddol o ran cydraddoldeb etholiadol.
- Mae'n lleihau ward pedwar-aelod i ward tri-aelod (Llandrillo-yn-rhos), sy'n cefnogi polisi'r Comisiwn.
- Mae'n cefnogi'r gynrychiolaeth a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Llanfairfechan trwy gadw dwy ward un-aelod Bryn a Phandy. Roedd y Comisiwn o'r farn mai'r opsiwn hwn ar gyfer yr ardal yw'r opsiwn dewisol.
- Mae'n cydymffurfio â chynigion arolwg 2011 ar gyfer ward arfaethedig Penmaenmawr, a gefnogwyd yn y cynrychiolaethau

cychwynnol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd K. Stevens (Pant-yr-Afon/Penmaenan).

- Mae'n datrys y lefel uchel o dangynrychiolaeth yn ward etholiadol bresennol Pensarn trwy greu ward tri-aelod Cyffordd Llandudno.
- Mae'n mynd i'r afael â'r lefel ragamcanol o dangynrychiolaeth ac yn gwella'r lefelau presennol o gydraddoldeb etholiadol yn Llysfaen trwy gyfuno'r ardal hon â Llanddulas i greu ward dau-aelod.
- Mae'n mynd i'r afael â'r gynrychiolaeth a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Abergele, sydd o'r farn bod angen cynghorydd ychwanegol, ac yn creu ward etholiadol â lefelau priodol o amrywiant trwy greu ward aml-aelod Pensarn a Phentre Mawr.

**Nododd** y Comisiwn ddau opsiwn ar gyfer ward etholiadol arfaethedig Gele; yn benodol, p'un a ellid cyfiawnhau cadw trefniant etholiadol â 3 aelod, oherwydd datblygiad arfaethedig yn yr ardal, neu a ddylid lleihau'r trefniant presennol o un cynghorydd i gydweddu'n well â lefelau presennol yr amrywiant etholiadol. Mae ymchwil pellach yn cael ei gynnal a chaiff tystiolaeth ei chyflwyno i'r Comisiwn mewn cyfarfod yn y dyfodol, er mwyn gallu gwneud penderfyniad gwybodus. **Gweithredu: Swyddog Arolygon**

9.3. **Cytunodd** y Comisiwn ag Opsiwn 4 ar gyfer Conwy Wledig, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Betws-y-Coed a Threfriw, Betws-yn-rhos, Caerhun, Eglwysbach a Llangernyw, Llanrwst gyda Llanddoged, Llansanffraid, Llansannan, Uwch Conwy, ac Uwchaled.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cadw mwyafrif y trefniadau etholiadol presennol.
- Mae'n darparu gwelliant o ran cydraddoldeb etholiadol.
- Trwy greu ward aml-aelod Llanrwst gyda Llanddoged, mae'r Comisiwn yn cydnabod bod y cynnig yn uno cymunedau trefol a gwledig. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn credu bod y cynnig hwn yn briodol ac wedi'i gadarnhau gan gysylltiadau cyfathrebu effeithiol a daearyddiaeth ar draws y ddwy ardal, sy'n arwain at ward etholiadol â lefelau priodol o amrywiant etholiadol.
- Ystyriodd y Comisiwn yr opsiynau ar gyfer cymunedau i'r gorllewin o afon Conwy a chytunodd gynnwys Cymuned Dolgarrog yn ward etholiadol Betws-y-Coed a Threfriw. Er bod hyn yn creu ward wledig fawr, fe'i dilyswyd gan y cysylltiadau cyfathrebu cryf rhwng ardaloedd Dolgarrog a Threfriw, a thrwy

gadw’r trefniadau presennol ar gyfer Caerhun. Cytunodd y Comisiwn i gynnwys paragraff yn yr adroddiad cynigion yn gofyn am sylwadau ar y cynnig amgen i gyfuno Cymuned Dolgarrog â ward etholiadol bresennol Caerhun.

- Mae gweddill y wardiau arfaethedig yn wardiau un-aelod ac yn gyfuniadau effeithiol o ardaloedd Cymunedol, ar sail topograffeg a chysylltiadau gwledig.

9.4. **Nododd** y Comisiwn fod yr opsiynau cytûn uchod yn arwain naill ai at:

- ostyngiad o bump yn nifer y cynghorwyr o 59 i 54 (gyda ward dau-aelod ar gyfer Gele), neu
- ostyngiad o bedwar yn nifer y cynghorwyr o 59 i 55 (gyda ward tri-aelod ar gyfer Gele).

9.5. **Cytunodd** y Comisiwn â’r rhestr enwau ar gyfer y wardiau etholiadol arfaethedig a oedd i’w hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg a Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru.

9.6. Caiff yr adroddiad Cynigion Drafft, gan gynnwys y ddau opsiwn ar gyfer ward etholiadol arfaethedig Gele, ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.
**Gweithredu: Swyddog Arolygon**

## 10. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 14 Tachwedd 2017 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

10.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

## 11. Calendr Digwyddiadau

11.1. **Nododd** y Comisiwn y calendr.

## 12. Unrhyw Fater Arall

12.1. Nid oedd unrhyw faterion eraill i’w trafod.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 19 Rhagfyr 2017**